

## CYFARFOD Y CABINET: 21 TACHWEDD 2016

---

### CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH LLEFYDD MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG CYMRAEG A SAESNEG YN WARDIAU ADAMSDOWN A SBLOT

### ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

**EITEM AGENDA: 5**

---

#### PORTFFOLIO: ADDYSG (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

##### Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Rhoi gwybodaeth i'r Cabinet ynghylch addasiad i'r cynnig trefniadaeth ysgolion a gytunwyd o ran darpariaeth llefydd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn wardiau Adamsdown a Sblot.

##### Cefndir

2. Yn y cyfarfod ar 21 Mawrth 2016 awdurdodwyd y cynnig canlynol heb eu haddasu:
  - Cynyddu maint Ysgol Glan Morfa, Moorland Road, Caerdydd, CF24 2LJ o 210 lle i 420 lle gyda hyd at 80 lle meithrin rhan amser ar gyfer plant o 3 i 11 oed o fis Medi 2017.
  - Trosglwyddo Ysgol Glan Morfa fwy i ysgol gynradd newydd ei hadeiladu ar gyfer 420 o blant ar safle newydd ar dir y Maltings o fis Medi 2017.
  - Cynyddu maint Ysgol Gynradd Moorland, Moorland Road, Caerdydd, CF24 2LJ o 382 lle i 630 lle gyda hyd at 96 lle meithrin rhan amser ar gyfer plant o 3 i 11 oed ac yn defnyddio adeiladau gwag Ysgol Glan Morfa o fis Medi 2017.

##### Problemau

3. Roedd rhagfynegiadau ar gyfer 2016/17 yn nodi'r galw am gyfanswm o 400 lle, yn cynnwys 49 lle cyfrwng Cymraeg a 259 lle cyfrwng Saesneg yn yr adroddiad a aeth i'r Cabinet ar 21 Mawrth 2016 ac yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhagfynegiadau hyn yn adlewyrchu data ar y boblogaeth a'r symud / symud i mewn i'r ardal ac roedd yn ystyried y cynnydd a ragwelwyd yn y galw am lefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

4. Mae'r Cyngor wedi derbyn y data diweddaraf ar y boblogaeth dan oedran ysgol gan y GIG a data CYBLD wedi ei ddiweddarau trwy ysgolion. Mae'r rhagfynegiadau sy'n ystyried y wybodaeth hon yn nodi y bydd cyfanswm y galw am lefydd yn nosbarth derbyn ysgolion cynradd yn ardal Adamsdown a Sblot yn gostwng i 370 ym mis Medi 2017 a bydd y galw am lefydd cyfrwng Saesneg yn gostwng i **229** lle. Mae'r rhagfynegiadau diweddaraf ar gyfer mis Medi 2018 yn awgrymu y bydd y galw'n cwmpo eto i 198 lle.

	Y galw a ragfynegir ar gyfer llefydd yn y dosbarth derbyn yn Adamsdown a Sblot.			
Blwyddyn derbyn:	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Ffydd	Cyfanswm
Medi 2016	35	223	101	359
Medi 2017	37	229	104	370
Medi 2018	34	198	87	319

5. Mae'r ffigyrau hyn wedi eu seilio ar y cyfluniad ysgolion ar hyn o bryd. Mae'r galw cymesur am addysg cyfrwng Cymraeg yn artiffisial o isel oherwydd bod y rhagfynegiadau yn ystyried y 'cario' ar y galw am lefydd yn Ysgol Glan Morfa yn y blynyddoedd diweddar gan mai'r Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd oedd 30 lle. Ar sail gwybodaeth am ddewis ysgol, mae disgwyl i'r galw am lefydd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Glan Morfa fod tua 15-20% yn uwch na'r hyn sydd uchod, a byddai'r galw am lefydd mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn gostwng o ganlyniad.
6. Mae'n aneglur ar hyn o bryd a fydd y boblogaeth yn parhau i leihau ar ôl 2018. Cedwir y rhagfynegiadau dan arolwg wrth i'r GIG ac ysgolion gyflwyno gwybodaeth.
7. Gan ystyried y wybodaeth uchod, cynigir gohirio gweithredu'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2017 i fis Medi 2018 a'i gadw dan arolwg er mwyn ystyried data diweddar ar y boblogaeth a data dewis ysgol a fydd ar gael yn y gwanwyn, 2017.
8. Mae'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi mabwysiadu dull newydd o drin Dylunio ac Adeiladu tri adeilad ysgol gynradd newydd (Ysgol Gynradd Howardian, Ysgol Glan Morfa ac Ysgol Hamadryad) ar sail proses gynllunio a chaffael lwyddiannus Ysgol Uwchradd newydd y Dwyrain.
9. Mae dull gwell wedi ei ddatblygu sy'n rhoi'r gallu i gynllunio a chaffael y tri adeilad ysgol gynradd newydd fel un pecyn, sy'n ddull cost-effeithiol i Gaerdydd yn ogystal â chynnig cynllun ar gyfer datblygiadau'r dyfodol a fydd yn ei gwneud yn bosibl torri costau a gostwng amser eto.
10. Cyflwynwyd proses gynllunio statudol newydd ym mis Awst 2016 y mae angen rhagor o ymgynghori arni cyn cynllunio gyda rhanddeiliaid yn y gymuned a rhai arbenigol; bydd hyn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer y cais cynllunio. Bydd y broses newydd yn ychwanegu o leiaf chwe wythnos at amserlen cyflawni'r project.

11. Gwanwyn 2018 yw'r amser y disgwylir cwblhau'r cynllun adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Glan Morfa a bydd yr ysgol yn sefydlu yno wedi'r Pasg. Pennir yr union ddyddiad yn ystod y gwaith adeiladu, ond fe fydd cyn gynted â phosibl.
12. Er y bwriedid adeiladu'r ysgol newydd i gyd-daro â'r trefniadau ysgol newydd cyn y tendro, cyflwynodd y contractwr a ddewiswyd ddull cost-effeithiol o safon ar gyfer codi adeilad ysgol ac ar y sail hynny y'i dewiswyd. Mae rhaglen y contractwr yn hirach na chontractwyr eraill yn y broses dendro (52 wythnos yn hytrach na 41) ond, wedi gwerthuso, penderfynwyd mai hwn oedd yr opsiwn gorau a fydd yn gwireddu dyheadau Caerdydd o sicrhau gwasanaeth addysg safon uchel ac arbed arian yn gymesur â hynny.
13. Gellir parhau i dderbyn y nifer disgyblion cynyddol a ddaw i Ysgol Glan Morfa yn yr adeiladau presennol, gyda rhai addasiadau bychain a rhannu adeiladau Ysgol Gynradd Moorland o ystyried yr oedi yn eu cynnydd mewn nifer.
14. Felly cynigir cynyddu nifer y disgyblion o 1DM i 2DM yn Ysgol Glan Morfa fel y bwriedid o fis Medi 2017.

### **Ymgynghori ag Aelodau Lleol (pan fo'n addas)**

15. Mae Aelodau Lleol yn croesawu buddsoddiad yn yr ardal leol. Bydd ehangu Ysgol Glan Morfa yn rhoi cyfle i gyfran uwch o'r gymuned gael ei haddysgu yn Gymraeg wrth i nifer y lleoedd gynyddu ac adeilad newydd yr ysgol gael ei adeiladu.
16. Cydnabyddir y bydd yr oedi yn y gwaith i ehangu Ysgol Gynradd Moorland yn galluogi amser i adolygu a chadarnhau cynlluniau ar gyfer y dyfodol sy'n briodol ar gyfer yr ardal leol.
17. Mae Aelodau Lleol yn awyddus i weld atebion trafndiaeth a thraffig cynaliadwy i gefnogi plant i deithio i'r ysgol yn ddiogel a byddant yn gweithio i gefnogi hyn.

### **Rheswm dros yr Argymhellion**

18. Cyflwyno gwybodaeth i'r Cabinet ynghylch addasiad i'r cynnig ar gyfer trefniadaeth ysgol o ran llefydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Wardiau Adamsdown a Sblot.

### **Goblygiadau Ariannol**

19. Cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi ei addasu, sydd werth £167.6, ym mis Mawrth 2016 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Wedi hyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo mewn egwyddor gynllun wedi ei gwtogi rywfaint, gwerth £164.1m. Yn y cynllun wedi ei addasu mae cyllideb o £6.86 miliwn ar gyfer project i gynnig gwasanaeth ysgol gynradd a meithrin mwy yn Wardiau Adamsdown a Sblot.

20. Yn y cam hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cam Achos Amlinellol Strategol / Achos Busnes Amlinellol y cynllun fel un o elfennau achos busnes ehangach sy'n cynnwys cynlluniau CTY ysgolion cynradd eraill yn y ddinas. Mae gwaith paratoi'r Achos Busnes Llawn yn parhau gyda'r bwriad o'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016. Tan fydd yr Achos Llawn wedi ei gymeradwyo, mae unrhyw wario gan y Cyngor er mwyn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn mewn perygl o beidio â derbyn cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn ac felly ni fyddai'n derbyn y cyfraniadau gwerth 50% a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau'r project. Hefyd, fel rhan o unrhyw gynnig Achos Busnes Llawn, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod sicrwydd o ran rhagfynegiadau nifer y disgyblion cyn gwneud buddsoddiad tymor hir.
21. Nid oes disgwyl i'r newidiadau i'r amserlen adeiladu gynyddu cyfanswm cost gweithredu'r project. Mae disgwyl hefyd na fydd y newidiadau'n dwyn effaith ariannol o ran cymryd meddiant o'r tir. Ers Adroddiad Cabinet Mawrth 2016, daeth trafodaethau ag Adran y Parciau i ben a chytunwyd ar y dulliau lliniaru effaith addas i wneud yn iawn am golli'r tir agored cyhoeddus. Nid oes disgwyl y bydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn yn cynyddu cyllideb gyfan Ysgolion yr 21ain Ganrif na chwaith yn cynyddu'r gofyn ariannol ar y Cyngor.
22. Prif ysgogiad y project yw'r cynnydd a ragfynegir yn nifer y disgyblion a fydd yn cynyddu'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ysgolion ac y bydd angen ei ariannu o gyllideb a ddyrannir i bob ysgol unigol. Bydd y fformwla ariannu a ddefnyddir i ddyrannu'r gronfa refeniw rhwng ysgolion yn ystyried y cynnydd yn nifer y disgyblion, felly bydd yr ysgol yn derbyn cyfran o'r gyllideb refeniw gyfan sydd ar gael yn unol â'r cynnydd yn nifer eu disgyblion.

### **Goblygiadau Cyfreithiol**

23. Mae'n rhaid cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw gynnig i wneud addasiadau rheoledig i unrhyw ysgol gymunedol; mae'n rhaid hefyd cydymffurfio ag Adrannau 41 a 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Roedd y cynnig gwreiddiol yn cydymffurfio â'r rhain.
24. Mae Paragraff 6 y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn trafod gweithredu unrhyw gynigion, gan gynnwys y posibilrwydd o ohirio gweithredu cynnig am 3 blynedd petai hi'n afresymol o anodd ei weithredu ar y dyddiad gweithredu gwreiddiol, os yw'r cynigydd yn fodlon ac wedi ymgynghoriad ag unrhyw gorff llywodraethu perthnasol. Mae hefyd yn nodi mai gyda chytundeb Gweinidogion Cymru yn unig y caiff y cynigydd ohirio cynnig os yw'r cynnig wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol neu gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid gwneud cais ysgrifenedig am gytundeb a nodi rhesymau'r cynigydd yn glir.
25. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried ei ddyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (yn cynnwys dyletswyddau penodol i'r sector cyhoeddus Cymreig) a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth wneud

penderfyniad ynghylch gohirio'r cynnig. Ystyrir hyn yn y prif adroddiad uchod.

### **Goblygiadau Adnoddau Dynol**

26. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda chyrrff llywodraethu ac arwain Ysgol Glan Morfa ac Ysgol Gynradd Moorland er mwyn paratoi ar gyfer eu hehangu yn ysgolion 2DM a 3DM ac ar gyfer symud Ysgol Glan Morfa i safle ysgol newydd. Anogir y cyrrff llywodraethu i wneud adolygiad o'u strwythurau staffio yn unol â Fframwaith Adnoddau Dynol CTY er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol er mwyn ehangu wrth i nifer y disgyblion ar y gofrestr gynyddu. Bydd angen i Ysgol Gynradd Moorland ystyried hyn ym mlwyddyn academaidd 2017/2018, a bydd angen i Ysgol Glan Morfa wneud hyn yn barod ar gyfer mis Medi 2018.
27. Bydd Gwasanaethau Pobl AD hefyd yn cynnig cyngor a chymorth ynghylch cynllunio ar gyfer unrhyw recriwtio ychwanegol. Bydd unrhyw swyddi gwag a allai godi o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y disgyblion ar y gofrestr yn cynnig cyfleoedd i adleoli dan Bolisi Adleoli a Dileu Swyddi'r Ysgol y mae'r Corff Llywodraethu wedi ei fabwysiadu.

### **Traffig a Thrafnidiaeth**

28. Nid oes unrhyw oblygiadau trafndiaeth newydd yn ychwanegol i'r rhai a nodwyd eisoes; fodd bynnag, dylid annog y ddwy ysgol i fabwysiadu Cynlluniau Teithio cadarn a phenodi Cydlynnydd Cynllunio Teithio i roi'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynlluniau Teithio ar waith.
29. Bydd angen gwneud gwelliannau i'r briffordd ar gyfer Ysgol newydd Glan Morfa yn safle'r Maltings; nodir y rhaid yn yr Asesiad Trafnidiaeth.

### **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Cynaliadwyedd**

30. Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Chynaliadwyedd wedi eu gwneud ar gyfer yr addasiad a gynigir a chanfuwyd na fydd effaith andwyol ar unrhyw un o'r grwpiau a ddiogelir. Ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad Cynaliadwyedd llawn, gweler Atodiad 1.

### **Effaith ar y Gymuned**

31. Ystyrir y canlynol wrth drafod cynnig: Tir agored cyhoeddus, tir parc, sŵn a thraffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau y byddai unrhyw gynnig yn osgoi effaith andwyol pan fo hynny'n bosibl.

### **Effaith ar y Gymraeg**

32. Mae'r cynnig yn cynnwys cynyddu nifer y llefydd mewn addysg feithrin a chynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

33. Mae disgwyl y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn.

## **ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

1. Awdurdodi swyddogion i geisio cytundeb Gweinidogion Cymru ar yr addasiad a gynigir i'r cynnig trefniadaeth ysgol a gytunwyd, fel y nodir ym mharagraff 7.
2. Awdurdodi swyddogion i adolygu rhagfynegiadau a'r galw am lefydd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal er mwyn canfod gwybodaeth ar gyfer datblygiad y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Moorland yn y dyfodol.
3. I nodi'r oedi o ran dyddiad cwblhau'r adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Glan Morfa fel y nodir ym mharagraff 11.

**NICK BATCHELAR**  
**Cyfarwyddwr**  
**15 Tachwedd 2016**

*Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr atodiadau canlynol:*

Atodiad 1: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Ystyriwyd y dogfennau cefndirol canlynol.*

Cynigion Trefniadaeth Ysgol: Darparu llefydd mewn addysg Gynradd cyfrwng cymraeg a chyfrwng Saesneg yn wardiau Adamsdown a Sblot 21 Mawrth 2016.



## Cyngor Caerdydd

### Canllawiau Offeryn Sgrinio Statudol

Os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd, yna mae nifer o ofynion statudol sy'n berthnasol. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion neu dalu sylw dyledus iddynt, olygu bod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu ffurfiau eraill o waradwydd.

Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol i strategaethau (h.y. Strategaeth Tai neu Strategaeth Chwarae Anabl), polisiau (h.y. Polisi Caffael) neu weithgaredd (h.y. datblygu ardal chwarae newydd).

Bydd cwblhau'r Offeryn Sgrinio Statudol yn sicrhau bod holl strategaethau, polisiau a gweithgareddau Cyngor Caerdydd yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Os yw'n ofynnol rhoi ystyriaeth fanylach i'r broblem, bydd yr Offeryn Sgrinio yn nodi p'un a oes angen asesu'r effaith yn llawn, fel y bo'n berthnasol.

---

Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisiau neu weithgareddau eu hadlewyrchu yn cynnwys:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**
- **Llywodraeth Cymru Bil Datblygu Cynaliadwy**
- **Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu - Cydymdrechu**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn**
- **Mesur y Gymraeg 2011**
- **Asesu'r Effaith ar Iechyd**
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae'r Offeryn Sgrinio Statudol hwn yn ein galluogi i gwrdd â holl ofynion yr holl ddarnau hyn o ddeddfwriaeth fel rhan o ddull integredig sgrinio nad yw fel arfer yn cymryd mwy nag awr.

Gellir cwblhau'r Offeryn Sgrinio fel hunanasesiad neu fel rhan o sesiwn wedi'i hwyluso, petai angen mwy o gymorth. Am ragor o wybodaeth neu os ydych angen sesiwn wedi'i hwyluso cysylltwch â'r Tîm Polisi, Partneriaethau a Ffocws ar Ddinasyddion ar 2078 8563 e-bost: [siadavies@caerdydd.gov.uk](mailto:siadavies@caerdydd.gov.uk). Nodwch:

- **Rhaid i'r Offeryn Sgrinio a gwblhawyd gael ei gyflwyno fel atodiad gyda'r adroddiad Cabinet.**
- **Bydd yr Offeryn Sgrinio a gwblhawyd yn cael ei ddangos ar y fewnwyd.**

## Offeryn Sgrinio Statudol

<p><b>Enw'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd:</b></p> <p>Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn ardal Adamsdown a Sblot, mewn llety parhaol, o fis Medi 2017.</p>	<p><b>Dyddiad Sgrinio:</b></p> <p>Diweddarwyd Tachwedd 2016</p>
<p><b>Gwasanaeth/Isadran:</b> Addysg</p>	<p><b>Swyddog Arweiniol:</b> Nick Batchelar</p>
<p><b>Y sawl sy'n bresennol:</b></p> <p>Hunanasesiad</p>	

<p><b>Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth?</b></p>	<p><b>Rhowch wybodaeth gefndirol am y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth ac unrhyw ymchwil a wnaed [e.e. cymharu data defnyddwyr y gwasanaeth ag ystadegau demograffeg, Asesiadau tebyg o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ac ati.]</b></p>
<p>I ddarparu cydbwysedd rhwng y nifer a'r galw am leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn Wardiau Adamsdown a Sblot.</p>	<p>Yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2016 cymeradwywyd heb ddiwygiad gynigion i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gynyddu capasiti Ysgol Glan Morfa, Moorland Road, Caerdydd, CF24 2LJ, o 210 o leoedd i 420 o leoedd gyda 80 o leoedd meithrin rhan amser (cynnydd o 48 o leoedd rhan amser) yn gwasanaethu'r ystod oedran 3-11 o fis Medi 2017.</li> <li>I drosglwyddo'r Ysgol Gynradd Glan Morfa estynedig i ysgol gynradd adeiladu newydd 420 o leoedd ar safle newydd ar dir yn y Maltings o fis Medi 2017.</li> <li>Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Moorland, Moorland Road, Caerdydd CF24 2LJ, o 382 o leoedd i 630 o leoedd gyda 96 o leoedd meithrin rhan amser yn gwasanaethu'r ystod oedran 3-11 gan ddefnyddio adeiladau gwag Ysgol Glan Morfa o fis Medi 2017.</li> </ul>

	Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 2 o 29
--	-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	----------------



Cynhwyswyd amcanestyniadau ar gyfer 2016/17 yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 21 Mawrth 2016 a'r ddogfen ymgynghori berthnasol a oedd yn dangos y galw am 400 o leoedd yn gyffredinol, gan gynnwys 259 o leoedd cyfrwng Saesneg a 49 cyfrwng Cymraeg. Mae'r amcanestyniadau hyn yn adlewyrchu'r data poblogaeth a'r gyfradd symudedd disgyblion/mewnfudo yn yr ardal, ac roeddynt yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd a ragwelir yn y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cyngor wedi derbyn data poblogaeth cyn-ysgol wedi'i ddiweddarau gan y GIG a data wedi'i ddiweddarau o CYBLD trwy'r ysgolion. Awgryma'r amcanestyniadau sy'n ystyried y wybodaeth hon y bydd cyfanswm y galw am leoedd mewn ysgolion cynradd ar fynediad i'r dosbarth Derbyn yn ardal Adamsdown a Sblot yn gostwng i 370 ym mis Medi 2017 a bydd y galw am leoedd cyfrwng Saesneg yn gostwng i **229** o leoedd. Dengys yr amcanestyniadau wedi'u diweddarau ar gyfer cymeriant Medi 2018 y bydd y galw yn gostwng ymhellach i 198 o leoedd.

Galw rhagamcanol am leoedd ysgol ar fynediad i flwyddyn Derbyn, Adamsdown a Sblot

Blwyddyn cymeriant:	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Ffydd	Cyfanswm
Medi 2016	223	35	101	359
Medi 2017	229	37	104	370
Medi 2018	198	34	87	319

Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar gyfluniad presennol ysgolion; mae'r galw cymesur cyfrwng Cymraeg yn artiffisial o isel oherwydd bod yr amcanestyniadau wedi ystyried y 'cap' a roddwyd ar y galw am leoedd yn Ysgol Glan Morfa yn y blynyddoedd diwethaf i'w Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 30 o leoedd. Yn seiliedig ar wybodaeth derbyn dewisol, rhagwelir y bydd y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Glan Morfa oddeutu 15 - 20% yn fwy na'r uchod, a byddai galw am leoedd mewn ysgolion cymunedol

cyfrwng Saesneg yn cael ei ostwng yn unol â hynny.

Mae'n aneglur ar hyn o bryd p'un a fydd y gostyngiad yn y boblogaeth yn parhau y tu hwnt i 2018. Adolygir yr amcanestyniadau wrth i wybodaeth wedi'i diweddarau gael ei darparu gan y GIG ac ysgolion.

O ystyried y wybodaeth uchod, cynigir gohirio'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2017 i fis Medi 2018 a'i gadw dan adolygiad er mwyn cymryd i ystyriaeth y data poblogaeth wedi'i ddiweddarau a data dewis ysgol, a fydd ar gael yng Ngwanwyn 2017.

Mae'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi mabwysiadu dull newydd i ddylunio ac adeiladu tri adeilad ysgol gynradd newydd (Ysgol Gynradd Howardian, Ysgol Glan Morfa ac Ysgol Hamadryad) yn seiliedig ar y broses ddylunio a chaffael lwyddiannus a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Ysgol Uwchradd Eastern newydd.

Datblygwyd dull wedi'i optimeiddio sy'n caniatáu dylunio a chaffael y tri adeilad ysgol gynradd newydd fel un pecyn, gan ddarparu ateb cost effeithiol i Gaerdydd, yn ogystal â glasbrint ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, a fydd yn galluogi effeithlonrwydd pellach o ran cost ac amser.

Cyflwynwyd proses gynllunio statudol newydd ym mis Awst 2016 sy'n golygu bod angen ymgymryd ag ymgynghoriad cyn-gynllunio pellach gyda rhanddeiliaid cymunedol ac arbenigol a fydd yn sail i'r cais cynllunio gwirioneddol. Bydd y broses newydd yn ychwanegu o leiaf chwe wythnos at amserlen cyflenwi'r project.

Y dyddiad cwblhau disgwylidig ar gyfer cyflenwi'r ysgol adeiladu newydd i Ysgol Glan Morfa yw Gwanwyn 2018, i'w meddiannu ar ôl gwyliau'r Pasg. Penderfynir ar yr union ddyddiad yn ystod y

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 4 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	----------------

gwaith adeiladu, ond bydd mor gynnar ag y bo modd.

Cyn y broses dendro, y bwriad oedd cyflenwi'r ysgol newydd ar yr un pryd â'r trefniadau ysgol newydd, ond dangosodd y contractwr a ddewiswyd ateb adeilad ysgol o ansawdd a chost effeithlon, a gwnaed y dewis ar y sail hon. Mae rhaglen y contractwr yn hirach na chontractwyr eraill a gyflwynodd dendr (52 wythnos yn hytrach na 40) ond yn dilyn gwerthusiad, barnwyd mai'r ateb hwn oedd yr un gorau, a bydd yn cwrdd yn llawn â dyheadau Caerdydd ar gyfer darpariaeth addysg o ansawdd uchel gydag arbedion maint.

Gellir parhau i gynnwys y cymeriant presennol a'r un uwch i Ysgol Glan Morfa yn yr adeiladau presennol gyda rhai mân newidiadau, a rhannu adeiladau gydag Ysgol Gynradd Moorland, o ystyried y cynnydd gohiriedig yn eu niferoedd.

Cynigir felly gweithredu'r cynnydd yng nghapasiti Ysgol Glan Morfa o 1FE i 2FE yn unol â'r cynllun o fis Medi 2017.

	Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 5 o 29
--	--------------------------	----------------------	---------------------------------	-----------------------	-------------------

Rhan 1: Effaith ar ganlyniadau a sylw priodol i Ddatblygu Cynaliadwy

Defnyddiwch y raddfa ganlynol wrth ystyried pa gyfraniad y mae'r gweithgaredd yn ei wneud:		
+	Cadarnhaol	Cyfraniad cadarnhaol at y canlyniad
-	Negyddol	Cyfraniad negyddol at y canlyniad
ntrl	Niwtral	Cyfraniad niwtral at y canlyniad
Ansicr	Ddim yn siŵr	Ansicr os oes unrhyw gyfraniad yn cael ei wneud at y canlyniad

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/liniaru
		+	-	Ntrl	Ansicr	
1.1	<p><b>Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach;</b>  <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>hybu iechyd da, atal ymddygiad niweidiol, hyrwyddo bwyta'n iach / ffyrdd o mwy gweithgar o fyw ayb.</li> <li>dinasyddion sy'n agored i niwed ac ardaloedd o amddifadedd lluosog</li> <li>Ymdrin ag achosion o anghydraddoldeb mewn iechyd</li> </ul>	✓				<ul style="list-style-type: none"> <li>Iechyd meddwl a lles yn cael ei hyrwyddo gan amgylcheddau dysgu modern ysbrydoledig</li> <li>Gweler 1.2 isod - annog cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus</li> <li>Gweler 1.3 isod yngh. atal troseddau ('Secure by Design')</li> </ul>
1.2	<p><b>Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy;</b>  <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>y ffactorau sy'n achosi Newid yn yr Hinsawdd, canlyniadau Newid yn yr Hinsawdd a chreu dinas carbon isel</li> </ul>	✓			✓	<p>Adeiladau newydd Ysgol Glan Morfa</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai unrhyw adeiladau newydd annibynnol yn adeiladau dyluniad Safonol "oddi ar gynllun" yn unol â manyleb 'Rhagorol' BREEAM, gan leihau costau rhedeg, costau adeiladu ac effaith amgylcheddol andwyol.</li> <li>Os yn bosibl, byddai egwyddorion a methodoleg ddylunio Passivhaus yn cael eu defnyddio a'u mabwysiadu, gan arwain at hwyluso'r rhan fwyaf o'r ffenestri yn yr ystafell ddosbarth yr ysgol i wynebu cyfeiriadedd Gogledd/De, gan gyfyngu a gwneud y gorau o haul yr haf a'r gaeaf, yn y drefn honno. Mae hyn yn lleihau'r defnydd o ynni ar gyfer gwresogi neu</li> </ul>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 6 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	----------------

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
				✓	<p>oeri ystafell.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai'r gwaith adeiladu waliau a manylion cyffyrdd allweddol yn cael eu datblygu yn ofalus i sicrhau adeilad hynod aerglos.</li> <li>- O dan SEWSCAP, rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio isgontractwyr a chyflenwyr lleol. Fel rhan o unrhyw broses dendro, rhoddir pwyslais ar sut mae'n rhaid i'r project adeiladu fod o fudd i'r economi leol. Mae enghreifftiau o Ddangosyddion Perfformiad allweddol fel a ganlyn:</li> <li>- Gofynnir i gontractwyr roi gwybod am y % o werth y contract a gaiff ei wario yn yr economi leol.</li> <li>- Gofynnir i gontractwyr neu isgontractwyr ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ddi-waith sy'n byw yng Nghymru.</li> <li>- Gofynnir i gontractwyr gynnig profiadau gwaith, hyfforddeiaethau a chyfleoedd prentisiaeth i bobl o fewn y gymuned leol.</li> </ul> <p>Ailwampio/addasiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Lle bo'n bosibl, ymgorfforir mesurau defnyddio ynni'n effeithlon yn y gwaith adeiladu yn achos unrhyw addasiadau i'r llety presennol.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>annog cerdded, beicio, a defnydd o gludiant cyhoeddus a gwella mynediad i gefn gwlad a mannau agored</i></li> </ul>	✓				<ul style="list-style-type: none"> <li>- Rhoddir pwyslais ar deithio trwy ddulliau egniol lle mae hyn yn bosibl, ac ar ddarparu cyfleusterau a chyfleoedd yn yr ysgol i fyfyrwyr deithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae annog teithio byw i'r ysgol yn ffordd bwysig</li> </ul>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 7 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	----------------

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
					<p>iawn o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol cynyddol mewn plant ac ymdrin â'r broblem gynyddol o ordewdra ymhlith plant. Mae lleihau tagfeydd wrth glwyd yr ysgol yn allweddol i sicrhau diogelwch y disgyblion ac i liniaru'r effeithiau ar y gymdogaeth leol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Yn gyffredinol, nid yw Cyngor Caerdydd yn cefnogi darparu lleoedd parcio i rieni. Mae hyn oherwydd y byddai darpariaeth o'r fath yn hyrwyddo teithio i'r ysgol mewn car, yn cynhyrchu traffig lleol, yn cyfrannu at dagfeydd ac yn lleihau diogelwch y disgyblion. Yn gyffredinol, darperir cyfleusterau parcio mewn ysgolion i staff yn unig ac i gwrdd ag anghenion gweithredol.</li> <li>- Byddai darpariaeth barcio gyfyngedig yn annog cerdded i'r ysgol.</li> <li>- Byddai Darparu Llwybrau Cerdded Diogel i ysgolion yn annog cerdded. Cyflwynir cynllun teithio ynghyd â'r cais cynllunio, yn manylion agosrwydd at gludiant cyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio.</li> <li>- Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (Mynediad, Cylchrediad a Safonau Parcio 2010) Caerdydd yn nodi bod gofyn i bob ysgol newydd neu estynedig ddatblygu Cynllun Teithio i'w gyflwyno gyda'r cais cynllunio. Mae Cynllun Teithio yn bolisi a chynllun gweithredu i: <ul style="list-style-type: none"> <li>o reoli trafndiaeth yn effeithlon</li> <li>o gwella mynediad trwy bob dull o deithio i weithwyr, ymwelwyr, cleifion a myfyrwyr</li> <li>o annog trafndiaeth gynaliadwy - cerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus a rhannu ceir</li> <li>o lleihau'r defnydd o geir.</li> </ul> </li> <li>- Mae Cynllun Teithio Ysgol yn cael ei gynllunio'n benodol i</li> </ul>
Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 8 o 29	

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
					<p>ymdrin ag anghenion cludiant disgyblion a staff a bydd yn amrywio yn ôl natur yr addysg a ddarperir ac ardal ddalgylch yr ysgol.</p> <p>- Gwneir asesiad Traffig/Trafnidiaeth fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li><i>lleihau llygredd amgylcheddol (tir, aer, sŵn a dŵr)</i></li> </ul>			<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>		<p>Anogir adeiladwyr i leihau llygredd aer, golau a sŵn yn ystod y cyfnod adeiladu.</p> <p>Lleolir adeiladau newydd yn y fath fodd fel eu bod yn osgoi unrhyw effaith niweidiol ar fynediad golau naturiol i mewn i eiddo cyfagos.</p> <p>Paratoir adroddiad acwstig er mwyn canfod lefelau acwstig y safle ac effaith acwstig unrhyw ysgol. Paratoir adroddiad pellach ar gyfer y cynigion yn unol â gofynion 'BB93 Dylunio Acwstig Ysgolion'</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li><i>lleihau defnydd ac annog lleihau gwastraff, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff</i></li> </ul>	✓			✓	<p>Mae'n ofynnol i gontractwyr ddangos sut maent yn bodloni'r gofynion sy'n ymwneud â lleihau treuliant a gwastraff fel y nodir gan Lywodraeth Cymru ac yn fframwaith caffael SEWSCAP.</p> <p>Mesurau a fyddai'n cael eu hystyried wrth ddylunio unrhyw gynllun adeiladu o'r newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• System Draenio Trefol Cynaliadwy</li> <li>• Dŵr poeth solar</li> <li>• Ffotofoltäig</li> <li>• Awyru Naturiol</li> <li>• Rheoli enillion solar</li> </ul>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 9 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	----------------

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/liniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
						<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynaeafu dŵr glaw</li> <li>Deunyddiau wedi'u graddio yn A neu A+ yn unol â Chanllawiau Manyleb Gwyrdd BRE i Fanyleb</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>annog bioamrywiaeth</li> </ul>			✓	✓	<p>Cynhelir arolygon ecolegol yn ôl yr angen ac ystyrir argymhellion i liniaru unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth fel rhan o'r cais cynllunio.</p> <p>Mae adeilad newydd yn rhoi cyfle i ystyried ffyrdd arloesol o annog bioamrywiaeth drwy integreiddio'r fenter Eco-ysgolion mewn cynlluniau adeiladu newydd.</p>
<b>1.3</b>	<p><b>Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;</b> <i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>lleihau trosedd, ofn trosedd a chynyddu diogelwch unigolion</i></li> <li><i>ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol</i></li> <li><i>amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed yng Nghaerdydd rhag niwed neu gamdriniaeth</i></li> </ul>	✓		✓	✓	<p>Byddai ymgynghori ar y project yn digwydd gydag Ymgynghorydd Dylunio Atal Troseddau Heddlu De Cymru, a byddai'r argymhellion yn cael eu hystyried a'u hymgorffori lle bo hynny'n ymarferol.</p> <p>Byddai pryderon a godir gan drigolion lleol ynghylch gollwng sbwriel yn fater i reolwyr yr ysgol, a byddai'r ysgol yn gweithio gyda disgyblion i geisio sefydlu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol er mwyn lleihau'r achosion o sbwriel gan ddisgyblion yn yr ardal leol.</p> <p>Mae'n ofynnol i ysgolion gael mecanweithiau diogelu yn eu lle. Caiff lefelau priodol o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer contractwyr eu rhoi ar waith.</p>
<b>1.4</b>	<b>Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu ac yn llwyddo;</b>	✓				Mae buddsoddi mewn adeiladau ysgolion yn gwella'r



	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
	<p><i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>cystadleurwydd economaidd (gweithgaredd menter, mentrau cymdeithasol, enillion cyfartalog, gwella cynhyrchiant)</i></li> <li><i>Cynorthwyo'r rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant</i></li> <li><i>denu a chadw gweithwyr (cyflogaeth newydd a chyfleoedd hyfforddi, cynyddu gwerth cyflogaeth)</i></li> <li><i>hyrwyddo cyfleoedd caffael lleol neu wella gallu cwmnïau lleol i gystadlu</i></li> </ul>	✓				<p>amgylchedd dysgu, yn cyfrannu at gyflwyno'r cwricwlwm modern a dylai gael effaith gadarnhaol ar yr economi gan ei fod yn helpu dysgwyr i gyflawni eu potensial.</p> <p>Mae fframwaith SEWSCAP yn ei gwneud yn ofynnol rhoi ystyriaeth i ddefnyddio isgcontractwyr a chyflenwyr lleol. Fel rhan o unrhyw broses dendro, rhoddir pwyslais ar sut mae'n rhaid i'r project adeiladu fod o fudd i'r economi leol. Mae enghreifftiau o Ddangosyddion Perfformiad allweddol fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnir i gcontractwyr roi gwybod am y % o werth y contract a gaiff ei wario yn yr economi leol.</li> <li>Gofynnir i gcontractwyr neu isgcontractwyr ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ddi-waith sy'n byw yng Nghymru.</li> <li>Gofynnir i gcontractwyr gynnig profiadau gwaith, hyfforddeiaethau a chyfleoedd prentisiaeth i bobl o fewn y gymuned leol.</li> </ul>
1.5	<p><b>Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu llawn botensial;</b></p> <p><i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>hyrwyddo a gwella mynediad i ddysgu gydol oes yng Nghaerdydd</i></li> <li><i>codi lefelau sgiliau a chymwysterau</i></li> <li><i>rhoi'r cychwyn gorau i blant</i></li> <li><i>gwella dealltwriaeth o gynaliadwyedd</i></li> <li><i>ymdrin â thlodi plant (tlodi ariannol, tlodi mynediad, tlodi cyfranogiad)</i></li> <li><i>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion ar gyfer Pobl Hŷn</i></li> </ul>	✓				<p>Mae buddsoddi mewn adeiladau ysgolion yn gwella'r amgylchedd dysgu, yn cyfrannu at gyflwyno'r cwricwlwm modern ac yn helpu dysgwyr i gyflawni eu potensial.</p> <p>Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gynyddu capasiti a chyfleusterau'r ysgol ym mwa deheuol y ddinas - ardal y ddinas sydd â'r lefelau uchaf o dlodi plant ac amddifadedd.</p> <p>Noda Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: 'Mae gan bob plentyn yr hawl i orffwys, chwarae, ac i wneud pethau y maent yn eu mwynhau.' Mae'n bwysig bod plant yn cael mynediad i amgylcheddau chwarae cyfoethog, a ddylai gynnwys gofod awyr agored priodol. Dylunnir adeiladau ysgol newydd yn unol â'r canllawiau Bwletin Adeiladu perthnasol sy'n cynnwys darpariaeth i alluogi cyfleoedd chwarae a mynediad at fannau awyr agored.</p>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 11 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------------

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
1.6	<p><b>Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo</b></p> <p><i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>hybu amrywiaeth diwylliannol Caerdydd</li> <li>annog cyfranogiad a mynediad i bawb at weithgarwch corfforol, hamdden a diwylliant</li> <li>cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc</li> <li>diogelu a gwella tirwedd a threftadaeth hanesyddol Caerdydd</li> <li>hybu cysylltiadau rhyngwladol y Ddinas</li> </ul>			✓		<p>Rhoddir ystyriaeth ar y cam dylunio i ddarparu mannau sydd â'r potensial i gael eu defnyddio gan y gymuned mewn ymateb i angen lleol.</p> <p>Gwelwyd hyn mewn ysgol dempled a gwblhawyd yn ddiweddar; Nant Talwg, ym Mro Morgannwg, sydd â'r gofod neuadd a chyfleusterau cysylltiedig yn nheu blaen yr ysgol, gan alluogi'r ysgol i aros yn ddiogel tra'n cynnig defnydd cymunedol y tu allan i oriau ysgol.</p> <p>Gan ddefnyddio ffynonellau ar-lein y Cyngor, nid oes unrhyw dderbynyddion treftadaeth ddiwylliannol wedi'u cofnodi ar unrhyw un o'r safleoedd a ystyrir.</p>
1.7	<p><b>Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol.</b></p> <p><i>Ystyriwch yr effaith bosibl ar</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ddileu camwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth grwpiau cydraddoldeb</li> <li>a yw'r gymuned neu randdeiliaid wedi'u cynnwys yn y broses o ddatblygu'r strategaeth/polisi/gweithgaredd?</li> <li>sut yr anogir cyfranogiad gan ddinasyddion (annog camau</li> </ul>	✓		✓		<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweler yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb isod.</li> <li>Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus statudol</li> <li>Rhoddir cyfle i'r Grŵp Cynghori Dylunio Cydraddoldeb (gan gynnwys cynrychiolwyr o grwpiau allanol) roi sylwadau</li> </ul>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 12 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------------

	A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
		+	-	Ntrl	Ansic r	
	<i>gweithredu sy'n ystyried mathau gwahanol o ymgynghori, drwy ymgysylltu mwy trylwyr, i gyfranogiad llawn mewn datblygu a darparu gwasanaeth)?</i>					<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai adrannau perthnasol yn y Cyngor yn cymryd rhan</li> <li>- Gwneir gwerthusiad ecolegol os oes angen - syrfewyr allanol</li> <li>- Ymgysylltir ag Ymgynghorydd Dylunio Atal Troseddau Heddlu De Cymru</li> <li>- Cynhwysir datganiad dylunio a mynediad fel rhan o unrhyw gais cynllunio</li> </ul>
1.8	<b>Mae'r Cyngor yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r ddinas a'i dinasyddion drwy bartneriaethau cryf</b> <i>Ystyried yr effaith bosibl ar</i> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>cryfhau partneriaethau gyda sectorau busnes a gwirfoddol</i></li> <li>• <i>yr agenda cydweithio a'r potensial ar gyfer gwasanaethau a rennir, gweithio ar draws ffiniau ac arbedion effeithlonrwydd</i></li> </ul>	✓			✓	<p>Gall cyfleusterau ysgolion modern ddarparu mannau hyblyg ar gyfer gweithio mewn partneriaeth (gwasanaethau integredig) a defnydd fel asedau cymunedol gwerthfawr (potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd).</p> <p>Gwelwyd hyn mewn ysgol dempled a gwblhawyd yn ddiweddar; Nant Talwg, ym Mro Morgannwg, sydd â'r gofod neuadd a chyfleusterau cysylltiedig yn nhu blaen yr ysgol, gan alluogi'r ysgol i aros yn ddiogel tra'n cynnig defnydd cymunedol y tu allan i oriau ysgol.</p>
	<b>ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB</b> <i>A fydd y Polisi/Strategaeth/Project hwn yn cael effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r canlynol:</i>					<i>Rhowch fanylion/ganlyniadau'r effaith wahaniaethol (cadarnhaol a negyddol), a pha gam(au) y gallwch eu cymryd i ymdrin ag unrhyw oblygiadau negyddol?</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Oed</b> (yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-25 a phobl hŷn dros 65 oed yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig)</li> </ul>	✓				<p><b><u>3-11 oed</u></b></p> <p>Mae buddsoddi mewn adeiladau ysgolion yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn cyfrannu at gyflwyno'r cwricwlwm modern.</p> <p>Gwnaed y cynnig i ohirio gweithredu'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Moorland o 2FE i 3FE mewn ymateb i adolygiad o amcanestyniadau sy'n dangos bod y lefel y galw am leoedd cyfrwng Saesneg yn is nag a ddisgwyliwyd</p>
	Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 13 o 29	

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
					<p>yn flaenorol.</p> <p>Bydd yr amcanestyniadau yn cael eu hadolygu'n gyson ac ystyrir y data poblogaeth wedi'i ddiweddarau a data dewis ysgol, a fydd ar gael yng Ngwanwyn 2017.</p> <p><i>Iechyd a diogelwch a Diogelu</i></p> <p>Mae gan y Cyngor brofiad o gyflenwi projectau adeiladu newydd ar safleoedd ysgolion tra'n galluogi cyflenwad parhaus addysg a chynnal iechyd a diogelwch.</p> <p><i>Dylunio</i></p> <p>Os yw'r llety adeilad newydd yn adeilad safonol annibynnol, byddai'n hygyrch i gadeiriau olwyn a byddai'r dyluniad yn ymgorffori'r cyfleusterau AAA sy'n ofynnol gan y Bwletin Adeiladu perthnasol. Gallai rheolwyr gweithredol yr ysgol hefyd alluogi defnydd o ystafelloedd nad ydynt wedi'u dynodi ar gyfer AAA.</p> <p><i>Trafnidiaeth a Thraffig</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Rhoddir pwyslais ar deithio trwy ddulliau egniol lle mae hyn yn bosibl, ac ar ddarparu cyfleusterau a chyfleoedd yn yr ysgol i fyfyrwyr deithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae annog teithio byw i'r ysgol yn ffordd bwysig iawn o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol cynyddol mewn plant ac ymdrin â'r broblem gynyddol o ordewdra ymhlith plant. Mae lleihau tagfeydd wrth glwyd yr ysgol yn allweddol i sicrhau diogelwch y disgyblion ac i liniaru'r effeithiau ar y gymdogaeth leol.</li> </ul>
Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 14 o 29	

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
	✓			✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Yn gyffredinol, nid yw Cyngor Caerdydd yn cefnogi darparu lleoedd parcio i rieni. Mae hyn oherwydd y byddai darpariaeth o'r fath yn hyrwyddo teithio i'r ysgol mewn car, yn cynhyrchu traffig lleol, yn cyfrannu at dagfeydd ac yn lleihau diogelwch y disgyblion. Yn gyffredinol, darperir cyfleusterau parcio mewn ysgolion i staff yn unig ac i gwrdd ag anghenion gweithredol.</li> <li>- Byddai gosod y ddarpariaeth yng nghanol yr ardal y mae'n ei gwasanaethu leihau'r defnydd o geir neu drafnidiaeth gyhoeddus ac annog cerdded a beicio i ac o'r ysgol.</li> <li>- Byddai darpariaeth barcio gyfyngedig yn annog cerdded a beicio i'r ysgol</li> <li>- Byddai asesiad Traffig/ Trafnidiaeth yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses cais cynllunio.</li> <li>- Byddai cynllun teithio yn cael ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio, yn rhoi manylion agosrwydd at gludiant cyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio.</li> <li>- Byddai newidiadau i'r seilwaith trafndiaeth a chludiant yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth ar gyfer cynnig.</li> </ul> <p><b><u>Oed cyflogaeth</u></b></p> <p><i>Adleoli/ recriwtio</i></p> <p>Gellir dal i fod â chanfyddiad y gallai cyfleoedd adleoli/ recriwtio gael eu heffeithio gan oed.</p>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 15 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------------

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
				✓	Defnyddir gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys cymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
			✓	✓	
<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Anabledd</b></li> </ul>	✓				<p>Byddai asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei wneud ar y cam dylunio ar hygyrchedd unrhyw adeiladau newydd ac i nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i wella mynediad at lety presennol o fewn cwmpas y gwaith. Byddai'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cymryd i ystyriaeth bolisiâu fel Deddf Cydraddoldeb 2010, TAN 12: Dylunio Mehefin 2009, yn ogystal â rheoliadau adeiladu fel canllawiau BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu.</p> <p>Byddai dyluniadau yn cymryd i ystyriaeth anghenion y canlynol mewn Datganiad Dylunio a Mynediad a gaiff ei gyflwyno gydag unrhyw gais cynllunio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Y rhai sydd â nam ar eu clyw – e.e. acwsteg priodol, delweddau/ symbolau iaith Arwyddion Prydeinig a dolenni clyw cludadwy/statig.</li> <li>- Y rhai sydd â nam ar y golwg - e.e. defnyddio lliw i wahaniaethu rhwng swyddogaeth gofodau, mapiau cyffyrddol ac iaith Braille ar arwyddion.</li> <li>- Y rhai sydd â nam corfforol - e.e. drysau â trothwy gwastad, lifftiau gyda mynediad i'r anabl</li> </ul>
Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 17 o 29	

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
	✓				<p>- Y rhai sydd ag anableddau dysgu.</p> <p>Os yw'r llety adeilad newydd yn adeilad safonol annibynnol, byddai'n hygyrch i gadeiriau olwyn a byddai'r dyluniad yn ymgorffori'r cyfleusterau AAA sy'n ofynnol gan y Bwletin Adeiladu perthnasol. Gallai rheolwyr gweithredol yr ysgol hefyd alluogi defnydd o ystafelloedd nad ydynt wedi'u dynodi ar gyfer AAA.</p> <p>Ni fyddai cludiant ar gyfer disgyblion anabl yn cael ei effeithio. Asesir anghenion cludiant ar sail unigol.</p>
• <b>Ailbennu Rhywedd</b>			✓		Byddai preifatrwydd cyfleusterau newid a thoiledau yn cael eu hystyried ar y cam dylunio. Byddai'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cymryd i ystyriaeth bolisiau fel Deddf Cydraddoldeb 2010, TAN 12: Dylunio Mehefin 2009, yn ogystal â rheoliadau adeiladu fel canllawiau BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu.
• <b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>			✓		amh.
• <b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>			✓		Byddai asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei wneud ar y cam dylunio ar hygyrchedd unrhyw adeiladau newydd neu lety symudol dros dro ac i nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i wella mynediad at lety presennol o fewn cwrpas y gwaith. Byddai'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cymryd i ystyriaeth bolisiau fel Deddf Cydraddoldeb 2010, TAN 12: Dylunio Mehefin 2009, yn ogystal â rheoliadau adeiladu fel canllawiau BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu.
• <b>Hil</b>			✓		Hil a Chrefydd/ Cred
• <b>Crefydd neu Gred</b>					Mae Bwa Deheuol y ddinas, y mae dalgylch Ysgol Uwchradd Willows yn rhan ohono, yn ardal gyda phoblogaeth uchel o Leiafrifoedd Ethnig (ME) ac ardal sy'n cynnwys amrywiaeth o

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 18 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------------



A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
	✓		✓		<p>ffydd.</p> <p>Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith wahaniaethol ar un grŵp ethnig na ffydd benodol gan y byddai'r ddarpariaeth ar gael i bawb.</p> <p><u>Cymorth iaith</u></p> <p>Ni fyddai'r cynigion yn effeithio'n uniongyrchol ar lefel y cymorth a ddarperir, gan fod yr holl gymorth yn dibynnu ar y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cael ei adolygu ac yna ei adnewyddu yn ôl canlyniadau Arolwg Asesiad Anghenion blynyddol. Mae dyraniad athrawon a Chynorthwywyr Athrawon Dwyieithog (BTAs) fel arfer yn ei le am gyfnod y flwyddyn academaidd ond mae'n debygol o newid yn ystod y flwyddyn i gwrdd ag amrywiadau mewn galw.</p> <p>Os yw'r llety newydd yn adeilad safonol annibynnol byddai'n hygyrch i gadeiriau olwyn a byddai'r dyluniad yn ymgorffori'r cyfleusterau SIY sy'n ofynnol gan y canllawiau Bwletinau Adeiladu perthnasol. Gallai rheolwyr gweithredol yr ysgol hefyd alluogi defnydd o ystafelloedd nad ydynt wedi'u dynodi ar gyfer SIY.</p> <p>Uwch reolwyr yr ysgol sydd yn y sefyllfa orau i reoli anghenion e.e. darparu lle ar gyfer gweddi ac unrhyw newid sylweddol mewn amrywiaeth o ran cred.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Rhyw</b></li> </ul>			✓		<p>Byddai'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw.</p> <p>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei defnyddio wrth weithredu newidiadau yn y cynnig hwn. Mae hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys cymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.</p>

Statws cyhoeddiad: 02	Dyddiad: 23/08/11	Perchennog y broses: D. Owen	Awdurdodiad: R. Jones	Tudalen 19 o 29
-----------------------	-------------------	------------------------------	-----------------------	-----------------

A yw'r Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar Ddinasyddion?	Ticiwch				Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru
	+	-	Ntrl	Ansic r	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfeiriadedd rhywiol</li> </ul>			✓		<p>Ofnau y gallai cyfleoedd adleoli/ recriwtio gael eu heffeithio gan gyfeiriadedd rhywiol.</p> <p>Mae tystiolaeth a gasglwyd gan y grŵp lobïo Stonewall yn honni ei bod yn debygol y gwahaniaethir yn erbyn pobl LHD o ran recriwtio yn y gweithle.</p> <p>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei defnyddio wrth weithredu newidiadau yn y cynnig hwn. Mae hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys cymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.</p>
